**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

25 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

Byddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Etholiadau ar 22 Mawrth. Trafododd y Pwyllgor hyn yn fyr yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth. Cawsom ddiweddariad llafar ar y Memorandwm Atodol gan Wasanaethau Cyfreithiol y Senedd, ond ni allwn ystyried nodyn cyngor cyfreithiol na chytuno ar adroddiad gan nad oes gennym unrhyw gyfle pellach i gyfarfod cyn y ddadl ar y Memorandwm Atodol, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 29 Mawrth.

Rydym yn rhwystredig iawn gan y diffyg amser sydd ar gael inni graffu ar y Memorandwm Atodol oherwydd iddo gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru mor agos at ddyddiad y ddadl, yn enwedig gan fod y Memorandwm Atodol yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd ar 11 Ionawr a 28 Chwefror. Fel y gwyddoch, mae Rheol Sefydlog 29.2(iii) yn darparu y dylai Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol neu Femorandwm atodol gael ei osod "dim mwy na phythefnos fel rheol ar ôl i'r gwelliannau gael eu cyflwyno neu eu derbyn." Mae'n siomedig y bu oedi y tro hwn o ddau fis rhwng cyflwyno'r gwelliannau a gosod y Memorandwm Atodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan yn y Memorandwm atodol ei sail resymegol dros yr oedi wrth osod y Memorandwm atodol:

> "Er bod y cyfnod arferol o bythefnos ar gyfer gosod wedi mynd heibio ers i welliannau 11 Ionawr gael eu cyflwyno, mae'r memorandwm atodol hwn yn cael ei osod ar hyn o bryd er mwyn iddo allu adlewyrchu canlyniad ein negodiadau a'n trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â nifer o ddarpariaethau'r Bil, gan gynnwys y gwelliannau hynny a gyflwynwyd ar 11 Ionawr ac y cytunwyd i'w cynnwys yn y Bil ar 17 Ionawr."

Rydym yn bryderus iawn ynglŷn â dull Llywodraeth Cymru, gan nad yw'r oedi o ran gosod y Memorandwm Atodol wedi gadael dim amser ar gyfer craffu gan ein Pwyllgor cyn iddo gael ei drafod gan y Senedd. Mae'r sefyllfa hon yn amlygu pa mor bwysig yw gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn modd amserol. Yn yr achos hwn, nid yw pwyllgorau'r Senedd wedi gallu gwneud unrhyw waith craffu ystyrlon ar Fil sy'n bwysig ac sy'n berthnasol yn uniongyrchol i etholiadau datganoledig yng Nghymru. Rydym yn pryderu felly y bydd y Senedd yn trafod rhinweddau'r ddeddfwriaeth heb y fantais o allu ystyried adroddiad pwyllgor perthnasol i lywio ei barn.

Barn ein Pwyllgor yw y byddai wedi bod yn well pe byddai Llywodraeth Cymru wedi gosod Memoranda atodol cyn gynted â phosibl ar ôl gosod y gwelliannau ym mis Ionawr a mis Chwefror, gan y byddai hyn wedi ein galluogi i graffu ar y darpariaethau.

Rydym yn cydnabod nad yw'r Rheolau Sefydlog wedi'u torri, gan fod geiriad Rheol Sefydlog 29.2 yn darparu y caiff Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ei osod "fel rheol" ddim hwyrach na phythefnos ar ôl i welliannau gael eu cyflwyno neu eu derbyn. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod oedi o'r fath o ran gosod y Memorandwm atodol yn mynd yn groes i ysbryd Rheol Sefydlog 29.2, y bwriedir iddo sicrhau bod gan y Senedd amser i ystyried darpariaethau perthnasol Bil diwygiedig cyn y cyfnod diwygio nesaf yn Senedd y DU, a thrwy hynny yn rhoi cyfle i'r Senedd o bosibl ddylanwadu ar welliannau i'r Bil yn y dyfodol.

Nodwyd pryderon tebyg gennym yn ein hadroddiad ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir), gan fod oedi o ran gosod Memorandwm atodol hefyd wedi amharu ar ein gwaith craffu ar y memorandwm hwnnw. Gobeithiwn y bydd rhannu ein barn yn ddefnyddiol i'ch gwaith ar y broses cydsyniad deddfwriaethol.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.